

Minutes of the remote meeting of the City Council, which took place via ZOOM video conferencing on **Monday 29 June 2020** at 6.30 p.m.

PRESENT: John Wyn Williams (Chair), Owen Hurcum, Les Day, Gwynant Roberts, Medwyn Hughes, John Martin, John Wyn Jones, Huw Wyn Jones, Mair Rowlands, Elin Walker-Jones, Dylan Fernley, Luke Tugwell, Kieran Jones, George Turner, Colin King, Ifan James, Enid Parry (signed in 6.50 pm)

Officer: - Martin Hanks, Town Clerk

226/19 APOLOGIES

Apologies for absence were received from Councillor Gareth Roberts.

227/19 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION

None.

228/19 URGENT BUSINESS

1. It was highlighted that significant public order disturbances and noise complaints had been received in and around the Harp Inn on High Street. The premises was being used as a temporary shelter by Gwynedd and Anglesey councils during the current pandemic. Correspondence from the Police confirmed that an agreement to re-locate these temporary tenants was postponed when one was diagnosed with Covid-19, resulting in all tenants being required to self-isolate for 14 days. Enquiries by the Mayor has confirmed that most of the tenants have been relocated.

RESOLVED: to contact Anglesey Council highlighting the problems the City has experienced and requesting an explanation why the City Council were not informed of the decision to locate people of no fixed abode in Bangor and enquire what support was provided for them.

2. **FOR INFORMATION:** The Council was informed that the licence between Nantporth CIC (NCIC) and Bangor City Football Club (BCFC) for the management of the 3G pitches is, by agreement of both parties, about to be terminated. This licence was established to ensure an income for NCIC to repay a loan obtained to build the pitches. BCFC has agreed to take full liability for this loan and therefore the need for the licence had been removed. It has been confirmed by the Council's legal advisers that this licence is a matter between BCFC and NCIC and this report is present to the Council, as landlords, for information only.

229/19 MINUTES

a) Council Meeting Minutes May 18 2020

RESOLVED: that the Minutes of this Meeting be confirmed as an accurate record of the meeting.

230/19 DRAFT FINAL ACCOUNTS FOR THE YEAR ENDED 31 MARCH 2020

- a) the Statement of Accounts 2019/2020:
- b) the figures for the Annual Return 2019/20120
- c) the Statement of Assurance 2019/2020: and
- d) the Internal Audit Report 2019/2020

The draft Annual Accounts Statement, the figures for the Annual Return for the year 2019/2020 and the Annual Governance Statement had been circulated for Members consideration in advance of the meeting, together with the Internal Auditors Report. The report contained no adverse comments or observations.

RESOLVED: Members agreed with all the statements and figures in the final draft of the annual audit for the year ending 31st March 2020 and accepted the internal auditor's report.

RESOLVED: To thank the Town Clerk and the office staff for their hard work in maintaining stringent financial controls.

231/19 PIER UPDATE To approve the next step for the Pier.

The Council were advised that the Pier had re-opened that morning with social distancing guidelines in place. The Council discussed the next step in the Pier renovation, in detail, at a specific meeting on the 8th of June. In keeping with the conclusion of that meeting, the Council decided to recommence work on the renovation.

RESOLVED: To proceed with phase four of the Pier restoration project, at an estimated cost of £188,000, with a view to completion by October 2020. £100,000 to be funded from Council reserves with the £88,000 to be funded by external grants and/or loans.

232/19 INVOICES FOR PAYMENT

It was noted that invoices as detailed on the schedule totalling £17637.48 had been approved. **RESOLVED:** that the payments be noted.

233/19 SIGNING OF DOCUMENTS

RESOLVED: that authority be given for the signing of documents on the City Council's behalf pertinent to open decisions of the Council taken at this Meeting.

The Meeting closed at 7.05.

TUDALEN 47

Cofnodion cyfarfod-o-bell Cyngor y Ddinas, a gynhaliwyd trwy fideo-gynadledda ZOOM nos Lun 29 Mehefin 2020 am 6.30 p.m.

PRESENNOL :- John Wyn Williams (yn y Gadair), Owen Hurcum, Les Day, Gwynant Roberts, Medwyn Hughes, John Martin, John Wyn Jones, Huw Wyn Jones, Mair Rowlands, Elin Walker-Jones, Dylan Fernley, Luke Tugwell, Kieran Jones, George Turner, Colin King, Ifan James, Enid Parry (arwyddwyd i mewn 6.50 pm)

Swyddog :- Martin Jones, Clerc y Dref Dros Dro

226/19 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Gareth Roberts.

227/19 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim.

228/19 MATERION BRYD

1. Dywedwyd fod cryn nifer o gwynion am darfu ar y drefn gyhoeddus a sŵn wedi'u derbyn o gwmpas Tafarn yr Harp ar y Stryd Fawr. Roedd yr adeilad yn cael ei ddefnyddio fel lloches dros dro gan gynghorau Gwynedd a Môn yn ystod y pandemig presennol. Cadarnhaodd gohebiaeth gan yr Heddlu fod trefniant i adleoli'r tenantiaid dros dro hyn wedi cael ei ohirio pan gafodd un ohonynt ddiagnosis o Covid-19, oedd yn golygu fod y tenantiaid eraill i gyd wedi gorfod hunanynysu am 14 diwrnod. Yn dilyn ymholiadau gan y Maer, cadarnhawyd fod y rhan fwyaf o'r tenantiaid wedi cael eu hadleoli.

PENDERFYNWYD: cysylltu â Chyngor Sir Ynys Môn i dynnu sylw at y problemau a gafodd y Ddinas a gofyn am esboniad pam na chafodd Cyngor y Ddinas ei hysbysu am y penderfyniad i leoli pobl heb gartref sefydlog ym Mangor gan ofyn pa gymorth oedd ar gael iddynt.

2. ER GWYBODAETH: Hysbyswyd y Cyngor fod y drwydded rhwng Nantporth CIC (NCIC) a Chlwb Pêl-droed Dinas Bangor (BCFC) i reoli'r lleiniau 3G, drwy gytundeb y ddau barti, ar fin cael ei therfynu. Sefydlwyd y drwydded hon i sicrhau incwm i NCIC fel eu bod yn gallu ad-dalu benthyciad a gafwyd i adeiladau'r lleiniau. Mae Clwb Pêl-droed Dinas Bangor wedi cytuno i gymryd atebolrwydd llawn dros y benthyciad hwn a dilëwyd yr angen am drwydded. Cadarnhawyd gan gynghorwyr cyfreithiol y Cyngor mai mater rhwng BCFC a NCIC yw'r drwydded hon a bod yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor, fel landlordiaid, er gwybodaeth yn unig.

229/19 COFNODION

a) Cofnodion Cyfarfod Zoom 18 Mai 2020

PENDERFYNWYD: derbyn a chadarnhau fel rhai cywir Cofnodion Cyfarfod y Cyngor uchod a'u harwyddo gan y Maer.

230/19 CYFRIFON TERFYNOL DRAFFT AM Y FLWYDDYN DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2020

- a) y Datganiad o Gyfrifon 2019/2020:
- b) ffigyrau'r Datganiad Blynyddol 2019/2020
- c) y Datganiad Sicrwydd 2019/2020: a'r
- d) Adroddiad Archwiliad Mewnol 2019/2020

Roedd y Datganiad o Gyfrifon Blynyddol drafft, ffigyrau'r Datganiad Blynyddol am y flwyddyn 2019/2020 a'r Datganiad Sicrwydd Blynyddol wedi'u dosbarthu i'r Aelodau gael eu hystyried gan y cyfarfod, ynghyd ag Adroddiad yr Archwilwyr Mewnol. Nid oedd unrhyw sylwadau andwyol yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD: Roedd yr Aelodau'n cytuno â'r holl ddatganiadau a'r ffigyrau yn nrafft terfynol yr archwiliad blynyddol am y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2020 ac yn derbyn adroddiad yr Archwilydd Mewnol.

PENDERFYNWYD: Diolch i Glerc y Dref a staff y swyddfa am eu gwaith caled yn cadw rheolaeth ariannol lem.

TUDALEN 48

231/19 DIWEDDARIAD Y PIER Cymeradwyo'r cam nesaf i'r Pier

Hysbyswyd y Cyngor fod y Pier wedi ail-agor y bore hwnnw gyda chanllawiau yn eu lle i gadw pellter cymdeithasol. Trafododd y Cyngor y cam nesaf yn adferiad y Pier, yn fanylach, mewn cyfarfod penodol ar 8 Mehefin. Yn unol â chasgliad y cyfarfod hwnnw, penderfynodd y Cyngor ailddechrau'r gwaith adnewyddu.

PENDERFYNWYD: Symud ymlaen â cham pedwar prosiect adnewyddu'r Pier ar amcan gost o £188,000, gyda golwg ar ei orffen erbyn mis Hydref 2020. £100,000 i'w ariannu o arian wrth gefn y Cyngor, a'r £88,000 i'w ariannu gan grantiau a/neu fenthyciadau allanol.

232/19 ANFONEBAU I'W TALU

Nodwyd fod yr anfonebau fel y manylwyd arnynt ar y rhestr yn dod i gyfanswm o £17637.48 wedi cael eu cymeradwyo.

PENDERFYNWYD: nodi'r taliadau.

233/19 LLOFNODI DOGFENNAU

PENDERFYNWYD : rhoi hawl i lofnodi ar ran Cyngor y Ddinas y dogfennau perthnasol i benderfyniadau'r Cyngor a wnaed yn y Cyfarfod hwn.

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.05.